Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned



# Cynnwys


Cyflwyniad 1

Rhandiroedd a'r Gyfraith 2

Awdurdodau lleol a Rhandiroedd – canllaw arferion da 6

Anifeiliaid ar Randiroedd 9

Perchenogion Tir Cyhoeddus a Phreifat – Cyngor ar Weithio gyda Grwpiau Tyfu Cymunedol 11

Gwybodaeth Ychwanegol ac Adnoddau 14


OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG40942 ISBN digidol 978-1-80195-103-6

# Cyflwyniad

Hwn yw ail argraffiad y canllawiau hyn, ar ôl iddynt gael eu cyflwyno'n llwyddiannus yn 2015. Ers hynny, mae'r cyfraniad y gall rhandiroedd a gerddi cymunedol ei chwarae o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau mwyaf dybryd heddiw, o iechyd a llesiant i'r hinsawdd ac argyfyngau natur, wedi dod yn fwy amlwg byth.

Mae Cymru erioed wedi bod yn genedl o dyfwyr. Mae ein hoffter o fwyd da a'n hawydd i ddarparu cynnyrch o ansawdd uchel i'n teuluoedd wedi llywio'r ffordd rydym yn defnyddio ein tir, o gefn gwlad i'n gerddi cefn. O'n canolfannau trefol i bentrefi gwledig ledled Cymru, mae'r awydd hwn i dyfu ein ffrwythau a'n llysiau ein hunain yn gryfach nag erioed ac mae mwy a mwy o bobl yn mwynhau manteision tyfu cynnyrch ar randiroedd neu mewn gerddi cymunedol.

Mae manteision garddio i unigolion a'r amgylchedd yn amlwg. Mae mwy o weithgarwch corfforol a llesiant meddyliol gwell, ffrwythau a llysiau ffres a mannau cyhoeddus sy'n cael gofal a defnydd da yn sgil-gynhyrchion naturiol tyfu'ch cynnyrch eich hun. Wrth arddio ar randir neu ardd gymunedol, cydnabyddir bod y manteision ychwanegol a ddaw o feithrin cysylltiadau cymunedol cadarnach, llai o unigedd cymdeithasol a'r cyfle i gydweithio a dathlu gyda'ch cymdogion yn gwella ansawdd bywyd yn ddramatig. I lawer, ystyrir bod rhandiroedd a gerddi cymunedol yn elfennau hanfodol o fyw bywyd hapusach, iachach a mwy cynaliadwy, ac wrth i ni weithio tuag at greu Cymru iachach, hapusach a mwy cynaliadwy, maent yn bwysicach nag erioed.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu bod rhwymedigaeth glir ar gyrff cyhoeddus i alluogi newid cadarnhaol sy'n arwain at Gymru fwy cydnerth, cadarn ac iach. Drwy amddiffyn a rheoli'r rhandiroedd a'r mannau tyfu a ddarperir ar hyn o bryd, a chefnogi datblygiad rhandiroedd a phrosiectau tyfu cymunedol newydd yn ôl y galw, gall pob corff cyhoeddus yng Nghymru ein galluogi i greu poblogaeth iachach a hapusach a chyflenwad mwy cynaliadwy a sicr o fwyd.

Diben y canllawiau hyn yw rhannu a chynyddu arferion da a galluogi mwy o bobl i drochi eu dwylo a thyfu eu cynnyrch eu hunain.

# Rhandiroedd a'r Gyfraith

## Rhandiroedd Statudol

Dim ond Rhandiroedd Statudol a gwmpesir gan y Gyfraith ar Randiroedd. Os bydd awdurdod lleol (o unrhyw fath, o gyngor plwyf i gyngor cymuned i gyngor tref) wedi caffael neu feddiannu safle at ddiben penodol ei ddefnyddio fel rhandiroedd, yna rhoddir diogelwch arbennig i'r safle hwn ac fe'i gelwir yn safle 'rhandiroedd statudol'.

Rhoddir rhywfaint o ddiogelwch cyfreithiol i randiroedd statudol. Ni ellir eu gwerthu na'u defnyddio at ddibenion eraill heb ganiatâd Gweinidogion Cymru. Ni ddylid caniatáu newidiadau o'r fath oni fydd Gweinidogion Cymru yn fodlon bod darpariaeth ddigonol wedi'i gwneud ar gyfer deiliaid rhandiroedd a gaiff eu dadleoli gan weithred yr awdurdod lleol.

Ni fydd y statws 'statudol' yn newid – hyd yn oed os bydd y cyfrifoldeb am reoli'r safle wedi cael ei drosglwyddo neu os bydd yr awdurdod lleol wedi rhoi prydles ar gyfer y safle i gymdeithas rhandiroedd neu gorff rheoli tebyg. Os bydd y cyfrifoldeb am reoli safle wedi cael ei drosglwyddo neu os bydd y safle wedi'i osod ar brydles i gymdeithas rhandiroedd fe'i gelwir yn aml yn safle 'hunanreoledig'.

## Safleoedd rhandiroedd dros dro

Os bydd tir wedi cael ei gaffael neu ei ddal gan awdurdod lleol at ddiben arall ond ei fod yn cael ei ddefnyddio fel rhandiroedd yn y cyfamser, yna gelwir y rhain yn 'rhandiroedd dros dro' er ei bod yn bosibl y byddant yn cael eu defnyddio fel rhandiroedd am ddegawdau. Nid yw rhandiroedd dros dro yn cael eu cwmpasu gan y gyfraith ar randiroedd ac nid oes unrhyw ddiogelwch statudol, sy'n rheoleiddio'r ffordd y cânt eu darparu a'u gwaredu, yn cael ei roi iddynt, ac eithrio'r rheoliadau cynllunio arferol.



## Safleoedd rhandiroedd sy'n eiddo preifat neu a arweinir gan y gymuned

Os caiff rhandiroedd eu cynnig ar safle preifat neu safle sy'n eiddo i'r gymuned, yna fel rhandiroedd dros dro, nid ydynt yn cael eu cwmpasu na'u diogelu gan y gyfraith ar randiroedd.

## Pa Ddeddfau sydd fwyaf perthnasol?

Y prif Ddeddfau Seneddol sy'n rheoli rhandiroedd yw:

- Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908
- Deddf Rhandiroedd 1922
- Deddf Rhandiroedd 1925
- Deddf Rhandiroedd 1950

Mae deddfwriaeth o dan Ddeddf 1950 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r canlynol:

1. defnyddio lleiniau unigol, a
2. darparu a gwaredu safleoedd gan awdurdodau lleol.

Yn y bennod hon, ystyr y term 'llain' yw rhandir unigol. Ystyr 'safle' yw ardal fwy o faint lle mae nifer o leiniau rhandir unigol wedi'u lleoli. Nid yw'r un o'r Deddfau wedi'u diddymu'n gyfan gwbl ond mae adrannau o bob un wedi'u disodli gan Ddeddfau mwy diweddar. Gellir gweld y fersiwn wreiddiol o bob un o'r Deddfau perthnasol, ac unrhyw fersiynau diwygiedig ohonynt, yn www.legislation.gov.uk/cy/

## Cyfrifoldeb am randiroedd

Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu mai awdurdodau rhandiroedd sy'n gyfrifol am ddarparu a gweinyddu rhandiroedd sy'n eiddo i'r cyngor. Diffinnir Cynghorau Cymuned, Tref a Sir (gan gynnwys bwrdeistrefi sirol) fel awdurdodau rhandiroedd o dan y gyfraith.

## Defnyddio lleiniau rhandir unigol

Pan fydd unigolyn yn rhentu llain rhandir o dan gytundeb tenantiaeth rhandir, rheolir meddiant y llain gan Ddeddf Rhandiroedd 1922 a chynnwys y cytundeb ei hun.

Mae Deddf Rhandiroedd 1922 yn cynnwys y cyfyngiadau canlynol:

1. y cyfnod rhybudd y mae'n rhaid ei roi i adael y llain
2. yr hyn y gellir ei dyfu ar y llain a'r cyfyngiadau ar gadw anifeiliaid ar y llain
3. maint llain unigol
4. yr hyn y gellir ei wneud â'r cynnyrch a dyfir ar y llain
5. cyfyngiadau ar rannu a throsglwyddo'r llain.

## Dod â thenantiaeth llain rhandir i ben

Er mwyn i awdurdod rhandiroedd ddod â thenantiaeth rhandir i ben, rhaid cyflwyno hysbysiad ymadael ysgrifenedig o 12 mis neu fwy, a ddaw i ben ar neu cyn 6 Ebrill neu ar neu ar ôl 29 Medi mewn unrhyw flwyddyn benodol. Mae hyn yn golygu y daw'r denantiaeth i ben yn ystod misoedd y gaeaf, er mwyn sicrhau nad oes llawer o gnydau yn tyfu ac y gall tenant newydd gymryd y llain drosodd mewn pryd ar gyfer y tymor newydd.

Fodd bynnag, os na fydd y tenant yn talu rhent am 40 diwrnod neu os bydd yn torri telerau'r cytundeb tenantiaeth, yna gellir rhoi mis o rybudd iddo ymadael.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i'r tenant ddod â'r denantiaeth i ben gan roi cyfnod penodol o rybudd.

## Yr hyn y gellir ei dyfu ar lain

Rhaid i lain "gardd rhandir" gael ei thrin gan y meddiannwr er mwyn cynhyrchu cnydau llysiau a ffrwythau.

Nid yw'r gyfraith yn gwahardd tyfu coed ffrwythau ond mae'n eithaf arferol i gytundebau tenantiaeth gyfyngu ar hyn.

## Anifeiliaid ar randiroedd

O dan Ddeddf Rhandiroedd 1950, dilëwyd y gwaharddiad ar gadw cwningod ac ieir, ar yr amod eu bod yn cael eu cadw at ddefnydd y tenant ei hun ac nid at ddibenion busnes nac er elw (1950 a12 (1)). Mae'n bwysig nodi bod y gyfraith yn gwahardd cadw ceiliogod.

Ni ddylid cadw'r anifeiliaid mewn ffordd sy'n niweidiol i iechyd neu sy'n peri niwsans. Nid yw'r gyfraith yn gwahardd cadw gwenyn, moch, geifr na mathau eraill o dda byw. Fodd bynnag, mae angen cael caniatâd y landlord i gadw unrhyw anifail neu dda byw ar randiroedd bob amser. Dylai manylion fod wedi'u cynnwys yn y cytundeb tenantiaeth.

Gweler y **bennod 'Anifeiliaid ar Randiroedd'**.

## Maint y llain

Mae Deddf 1922 yn nodi bod gardd rhandir yn 40 stang sef ¼ erw neu 1012 metr sgwâr. Mae'n eithaf cyffredin i hanner a chwarter lleiniau gael eu cynnig, sy'n fwy addas i ffyrdd modern o fyw. Nid yw'r gyfraith yn cyfyngu ar nifer y lleiniau y gall unigolyn eu cael ond bydd llawer o safleoedd yn cyfyngu'r nifer i un neu ddau.

## Yr hyn y gellir ei wneud â'r cynnyrch o'r llain

Mae Deddf 1922 yn nodi bod yn rhaid i'r cynnyrch sy'n cael ei dyfu, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, fod at ddefnydd deiliad y llain a'i deulu.

Y defnydd o'r ymadrodd "yn bennaf" sy'n rhoi rhyddid i werthu'r cynnyrch dros ben, ynghyd â'r gallu i dyfu ychydig o flodau a phlanhigion tebyg. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cyfyngiadau pellach yn ymwneud â masnachu mewn cytundebau rhandiroedd penodol.

## Rhannu a throsglwyddo'r llain

Ni ellir is-osod rhandir heb ganiatâd yr awdurdod rhandiroedd. Bydd gan bob awdurdod rhandiroedd reolau penodol ynghylch pwy all gymryd llain drosodd neu p'un a oes gennych ganiatâd i rannu'r llain yn ddarnau neu ei rhannu â rhywun arall. Os byddwch yn gwneud hynny, mae'n bosibl y cyflwynir hysbysiad i chi i ddod â'r denantiaeth i ben.



## Darparu rhandiroedd

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu rhandiroedd os bydd galw amdanynt. Os bydd chwech o drigolion yr awdurdod am gael rhandir ac nad oes unrhyw rai ar gael, yna gallant wneud cais i'r awdurdod rhandiroedd perthnasol eu darparu. Gweler Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 adran 23 – diwygiedig.

Mae gan awdurdodau rhandiroedd bwerau prynu a lesio gorfodol i gael tir ar gyfer rhandiroedd, er nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml. Er nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi unrhyw derfynau amser ar gyfer ateb y galw, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud o fewn blwyddyn.

**Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 (Diwygiedig) Dyletswydd Cynghorau Penodol i Ddarparu Rhandiroedd.**

(1) *If the council of any borough, urban district, or parish are of opinion that there is a demand for allotments … in the borough, urban district, or parish, … the council shall provide a sufficient number of allotments, and shall let such allotments to persons … resident in the borough, district, or parish, and desiring to take the same.*

(2) *On a representation in writing to the council of any borough, urban district, or parish, by any six registered parliamentary electors or [persons who are liable to pay an amount in respect of council tax] resident in the borough, urban district, or parish, that the circumstances of the borough, urban district, or parish are such that it is the duty of the council to take proceedings under this Part of this Act therein, the council shall take such representation into consideration.*

## Am ragor o wybodaeth

- Mae pob un o'r Deddfau sy'n ymwneud â rhandiroedd ar gael ar-lein yn www.legislation.gov.uk/cy/
- 'The Law of Allotments' gan Paul Clayden, a gyhoeddir gan Shaw & Sons (yn ei 5ed argraffiad ar hyn o bryd).
- Mae cyngor hefyd ar gael gan Gymdeithas Genedlaethol y Rhandiroedd yn www.nsalg.org.uk
- Deddf Rhandiroedd 1925 adran 8 a 24 (4)
- Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 adran 23 (ddiwygiedig), 25, 29 a 39
- Deddf Llywodraeth Leol Cymru 1994
- Deddf Rhandiroedd 1922 adran 1 (1) (a), adran 22 (1) a (4)(b)
- Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 adran 27 (4).
- Deddf Rhandiroedd 1950 adran 1
- Land settlements & facilities Act 1919
- Allotments and Cottage Gardens Compensation for Crops Act 1887
- Poor Allotments Management Act 1873

# Awdurdodau lleol a Rhandiroedd – canllaw arferion da

Mae rhandiroedd yn cyfrannu at Gymru iachach a mwy cydnerth (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Maent yn cyd-fynd â'r Pum Ffordd at Les – cysylltu, bod yn egnïol, cymryd sylw, parhau i ddysgu a rhoi. Maent yn gwneud hyn oll am fawr ddim mewnbwn ariannol nac amser staff. Nid oes angen i arferion da gostio llawer ac, ar y cyfan, mae cymunedau yn ymwybodol o gyfyngiadau cyllidebol ac maent yn barod i weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn ysgafnhau'r baich.

## Gwybodaeth glir a hawdd ei deall

Dylai'r holl wybodaeth am randiroedd fod yn glir, yn gyfredol ac yn hawdd ei deall ar ei thudalen benodol ei hun ar wefan yr awdurdod lleol. Dylai gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- **Pwy sy'n gyfrifol?**
  Dylai fod gan bob awdurdod lleol aelod o staff sy'n gyfrifol am randiroedd a dylent hefyd fod yn rhan o bortffolio aelod etholedig o'r cabinet. Dylai manylion cyswllt y ddau unigolyn hyn fod ar y wefan.
- **Darpariaeth**
  Dylid mapio a disgrifio'r holl ddarpariaeth bresennol – nifer y lleiniau, cyfleusterau, nifer y bobl ar y rhestr aros. Dylai hyn gynnwys safleoedd hunanreoledig a safleoedd cymunedol.
- **Y broses gwneud cais**
  Dylai ffurflen gais syml a rhif ffôn fod ar gael er mwyn i bobl wneud cais am randir.
- **Cofnodi'r galw am randiroedd nas bodlonwyd**
  Anogir awdurdodau lleol i gofnodi'r galw am randiroedd nas bodlonwyd drwy broses ar-lein ar eu gwefan os nad oes unrhyw randiroedd ar gael yn eu hardal. Os na chofnodir y galw nas bodlonwyd, mae'n amhosibl gweld ble mae galw am randiroedd nad yw'n cael ei fodloni. Gall cynghorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol wneud hyn hefyd a chyhoeddi'r niferoedd.



## Rhestrau aros a rheoli'r galw

Gall fod gan awdurdodau eu cronfeydd data eu hunain y gellir eu defnyddio i gofnodi hyn – ac anfon gohebiaeth at grwpiau o unigolion – er enghraifft, er mwyn gweld a yw pobl yn dal i aros am randir neu a fyddent yn defnyddio darpariaeth newydd yn eu hardal. Dylid ceisio diweddariadau blynyddol o wybodaeth gan safleoedd hunanreoledig a safleoedd cymunedol. Er hwylustod ac er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gall awdurdodau lleol ddewis gofyn am ddata nad ydynt yn datgelu enwau defnyddwyr yn benodol nac yn anuniongyrchol yn unig, er enghraifft:

- Faint o leiniau, hanner lleiniau, chwarter lleiniau
- Sawl un a feddiannir
- Faint o bobl sydd ar y rhestr aros

Er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith, dylid gofyn i bobl sy'n llenwi'r ffurflenni ar wefan yr awdurdod lleol a ydynt eisoes ar restr arall rywle arall.

Mae meddalwedd arbenigol ar gael er mwyn helpu i reoli rhandiroedd os na fydd gan awdurdodau gronfeydd data addas neu os bydd ganddynt lawer o safleoedd i'w gweinyddu. Gallant reoli biliau, anfon gohebiaeth at nifer mawr o bobl, a negeseuon atgoffa a hysbysiadau i ymadael, a chofnodi data a ffotograffau o ymweliadau â safleoedd mewn amser real. Mae cost yn gysylltiedig â hyn ond mae'n bosibl y caiff ei gwrthbwyso am fod staff yn arbed amser:

www.mcpcsystems.co.uk/colony/

www.rbssoftware.co.uk/index.php?section=14

www.edgeitsystems.com/advantedge/products/advantedge-allotments/

## Rheoli'r galw

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried sylwadau a gyflwynir a darparu'r hyn sydd, yn eu barn nhw, yn nifer digonol o randiroedd. (Gweler Rhandiroedd a'r Gyfraith)

Dylai awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd wrth ystyried ateb y galw am safleoedd yn ysbryd y gyfraith. Mae sawl ffordd y gellir gwneud hyn:

- mapio'r galw yn ddaearyddol a darparu safleoedd newydd ar dir yr awdurdod lleol
- prynu neu lesio tir preifat (os nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw dir addas ar gael)
- neilltuo safleoedd datblygu newydd fel rhai defnydd cymysg i gynnwys rhandiroedd a defnyddio cyfraniadau datblygwyr i sefydlu safleoedd
- helpu grwpiau cymunedol a chynghorau cymuned neu dref i sefydlu safleoedd rhandiroedd
- rheoli rhestrau aros yn fwy effeithiol, darparu hanner lleiniau a hyd yn oed leiniau cychwyn. Yn aml, bydd llawer o bobl ar restrau aros yn sylweddoli, ar ôl iddynt gael rhandir, nad oes ganddynt yr amser mewn gwirionedd i gadw i fyny â'r gwaith. Bydd lleiniau cychwyn chwarter maint yn rhoi syniad i bobl o'r gwaith sydd ynghlwm. Fodd bynnag, dylech gadw'r opsiwn i gael lleiniau llawn ac nid dim ond rhannu eich lleiniau'n ddarnau llai o faint hyd nes eich bod wedi ateb y galw, yn ôl pob golwg.

Er bod dyletswydd i ymateb i'r galw, nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol i ddarparu nifer penodol o randiroedd y pen o'r boblogaeth. Dylai fod gan Awdurdodau Lleol strategaeth glir ar gyfer cynnig tir i gymunedau sy'n awyddus i sefydlu rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol yn eu hardal leol.

## Neilltuo lleiniau

Bydd gan y rhan fwyaf o safleoedd rhandiroedd bolisi neilltuo lleiniau. Y broses symlaf yw rhoi'r llain wag i'r sawl sydd ar frig y rhestr. Fodd bynnag, yn aml bydd cymalau sy'n cynnwys yr opsiwn i aelodau o'r teulu etifeddu llain neu sy'n nodi, os bydd pobl wedi bod yn rhannu llain (ond bod y denantiaeth yn nwylo un ohonynt), y dylai fod gan y llall yr opsiwn i gymryd y llain drosodd. Mae'n werth cofnodi bod rhandir yn cael ei rannu fel bod modd trosglwyddo'r denantiaeth yn hawdd.

Os bydd safle rhandiroedd yn agos at y ffin rhwng ardaloedd awdurdodau lleol, dylai fod yn hygyrch i bobl o'r naill sir a'r llall. Drwy gydweithio a rhannu gwybodaeth, byddai awdurdodau lleol mewn gwell sefyllfa i ateb y galw lleol am randiroedd yn fwy effeithlon.

Ni waeth pa mor fach a chyfeillgar yw'r safle, mae'n werth cael polisi ar beidio â thrin y tir, fel y gellir adennill llain pan na fydd yn cael ei defnyddio. Dylid cynnwys y polisïau hyn yn y cytundeb tenantiaeth er mwyn osgoi anghydfod. Dylid cynorthwyo pobl os bydd sefyllfa dros dro yn codi yn eu bywyd sy'n golygu na allant drin llain hirsefydledig. Hefyd, gallwch gynnig rhannu lleiniau fel ei bod yn haws ymdopi â nhw. Mae'n werth cofio hefyd y gallai pobl fod yn rheoli

eu llain yn ôl egwyddorion permaddiwylliant, a allai olygu bod golwg llai traddodiadol ar eu llain. Dylid annog pobl hefyd i adael rhannau o'u llain heb eu trin ar gyfer bywyd gwyllt neu adael i blanhigion flodeuo a hadu ar gyfer adar a pheillwyr eraill; ni ddylid cosbi hynny.

## Strategaeth Rhandiroedd

Mae strategaeth rhandiroedd, cefnogaeth i randiroedd gan yr Arweinydd a'i Gabinet, a chefnogaeth i randiroedd a thyfu cymunedol yn y Cynllun Datblygu Lleol yn bwysig. Os bydd targedau a nodau awdurdod lleol yn cynnwys hybu iechyd drwy annog tyfu cymunedol, yna bydd achos cryfach o lawer gan grŵp cymunedol neu swyddog rhandiroedd dros ddefnyddio darn o dir yr awdurdod lleol neu gynnwys rhandiroedd mewn datblygiad gan ddefnyddio cyfraniadau gan y datblygwr (cytundebau Adran 106 neu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol). Gellir cefnogi hyn ar y sail ei fod yn gwneud yn iawn am golli mannau gwyrdd. Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn cryfhau achos awdurdodau lleol dros ystyried manteision ehangach cynaliadwyedd a chydnerthedd wrth asesu mynediad i dir a'r defnydd ohono.

**Dylai strategaeth rhandiroedd gynnwys y canlynol:**

- manteision rhandiroedd i iechyd a llesiant a'r ffordd y maent yn helpu i gyflawni polisi'r cyngor a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- crynodeb o'r ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu rhandiroedd
- map a disgrifiad o'r holl ddarpariaeth leol, gan gynnwys cyfleusterau ar safleoedd
- rhestr aros a data ar y galw am randiroedd nas bodlonwyd – lle nad yw hyn yn gyflawn – strategaeth i wella
- strategaeth i ateb y galw
- gweithdrefnau ar gyfer cael rhandir
- rheolau tenantiaeth
- costau ac incwm
- dolen i sefydliadau cymorth lleol a chenedlaethol
- y broses reoli, cofnodi data ac adroddiadau
- pwyntiau gweithredu ac amserlenni.

## Costau a Thaliadau

Dylid gosod llain randir am y cyfryw rent ag y gellir disgwyl yn rhesymol i denant ei thalu am y tir (Deddf Rhandiroedd 1950 adran 10). Er y gall fod temtasiwn i gynyddu rhenti er mwyn talu cost darparu rhandiroedd, efallai y bydd hyn yn atal yr union bobl y mae angen rhandiroedd arnynt fwyaf rhag eu cael. Dylai rhenti fod yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef £45 y flwyddyn am lain lawn (yn gywir ym mis Ebrill 2020) a chaiff yr awdurdod ddewis a fydd yn cynnig cyfraddau consesiynol ai peidio.

Gellir lleihau'r costau i'r awdurdod lleol drwy symud tuag at gyflwyno trefniadau hunanreoli a gweithio gyda grwpiau cymunedol a chynghorau tref a chymuned i ddarparu safleoedd newydd. Fodd bynnag, dylai trefniant hunanreoli fod yn ddewisol a dylai safleoedd gael eu cymryd yn ôl o dan reolaeth yr awdurdod lleol os na fydd trefniant o'r fath yn gweithio. Yn yr un modd, dylai awdurdodau ddarparu safleoedd newydd mewn ardaloedd lle mae galw amdanynt os na fydd grŵp cymunedol na chyngor a all wneud hynny.

## Deunydd darllen pellach

Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi canllawiau manwl ar reoli rhandiroedd yn effeithiol.

- Growing in the Community – ail argraffiad – a gyhoeddir gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol www.local.gov.uk/growing-community-second-edition
- A Place to Grow – canllawiau atodol – y Gymdeithas Llywodraeth Leol www.local.gov.uk/place-grow-supplementary-document-growing-community

# Anifeiliaid ar Randiroedd

## Y Gyfraith

Cyn Deddf Rhandiroedd 1950, roedd cadw ieir a chwningod ar randiroedd yn cael ei wahardd o dan y gyfraith. Diddymodd y Ddeddf y cyfyngiad hwn:

**'Abolition of contractual restrictions on keeping hens and rabbits.**

(1) *Notwithstanding any provision to the contrary in any lease or tenancy or in any covenant, contract or undertaking relating to the use to be made of any land, it shall be lawful for the occupier of any land to keep, otherwise than by way of trade or business, hens or rabbits in any place on the land and to erect or place and maintain such buildings or structures on the land as reasonably necessary for that purpose:*

*Provided that nothing in this subsection shall authorise any hens or rabbits to be kept in such a place or in such a manner as to be prejudicial to health or a nuisance or affect the operation of any enactment.'*



Nid yw hyn yn golygu bod gan ddeiliaid rhandiroedd yr hawl i gadw anifeiliaid, dim ond nad yw hynny'n cael ei wahardd gan y gyfraith. Mae angen cael caniatâd y landlord i gadw unrhyw dda byw a dylid ei gynnwys yn y cytundeb tenantiaeth.

## Ieir a gwenyn

Mae ieir a gwenyn yn dda byw buddiol i'w cadw ar randiroedd neu safleoedd tyfu cymunedol. Mae ieir yn arddwyr gwych, ac mae'n rhan o'u natur i grafu am bryfed a lindys yn y pridd. Gallwch wneud defnydd da o'r tueddiad hwn, gan y gallant glirio tir neu gael eu rhoi ar welyau ar ôl cynaeafu cnwd. Byddant yn clirio gweddillion cnydau ac yn gwrteithio'r pridd ag un o'r gwrteithiau gorau sydd ar gael. Bydd cwch gwenyn ar y safle yn cynyddu bioamrywiaeth ac yn sicrhau bod yr holl gynnyrch a blodau coed yn cael eu peillio.

Fel gyda phob math o dda byw, mae angen gofalu am ieir a gwenyn yn gywir er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cadw'n iach.

- Yn achos ieir, mae'n bwysig cofio y bydd angen eu gwarchod rhag ysglyfaethwyr, a rhoi cyflenwad da o fwyd a graean iddynt er mwyn sicrhau y byddant yn parhau i gynhyrchu wyau a chwt ieir wedi'i gynllunio'n dda. Dylech hefyd ystyried rheoliadau Llywodraeth Cymru, lles anifeiliaid, sut i storio'r bwyd, cnofilod, diogelwch y safle a'r effaith y bydd eich anifeiliaid yn ei chael ar ddeiliaid lleiniau eraill.
- Yn achos gwenyn, mae angen i chi ystyried y canlynol: nifer y cychod gwenyn i'w cadw, pryd i wneud gwaith cynnal a chadw arnynt, cadw golwg am blâu, a lleoliad y cychod gwenyn o safbwynt diogelwch. Dylech gadarnhau a oes gan unrhyw ddeiliaid rhandir alergedd difrifol. Dylech ymuno â'ch cymdeithas cadw gwenyn leol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy Gymdeithas

Gwenynwyr Prydain (BBKA), sef y sefydliad cenedlaethol i wenynwyr. Bydd eich cymdeithas leol yn gallu rhoi cyngor a gwybodaeth ac arddangosiadau cadw gwenyn i chi. Bydd hefyd yn gallu rhoi cyngor ar gyfarpar, gwenyn ac yswiriant i chi, neu eu gwerthu i chi hyd yn oed.

## Lles

Mae'n bwysig nodi na ddylid cadw anifeiliaid ar randiroedd oni ellir rhoi lefelau priodol o ofal ac amgylchedd addas iddynt. O dan Deddf Lles Anifeiliaid 2006, mae'n drosedd achosi dioddefaint diangen i unrhyw anifail ac mae'r Ddeddf yn rhoi manylion y ddyletswydd gofal tuag at anifeiliaid. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gyfrifol am anifail, boed yn barhaol neu dros dro, gymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion yr anifail yn cael eu diwallu. Mae hyn yn cynnwys darparu'r canlynol:

- deiet addas
- amgylchedd addas
- y cyfle i ddangos patrymau ymddygiad arferol
- lle i'w gadw dan do gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt
- amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefydau.

Argymhellir y dylai deiliaid rhandiroedd sy'n cadw anifeiliaid lunio cynllun i atal y canlynol/ymdrin â'r canlynol:

- tân
- llifogydd
- achosion o glefyd
- diwedd y denantiaeth

Hefyd, dylid dangos manylion cyswllt yn barhaol mewn man amlwg os bydd argyfwng.

Llywodraeth Cymru:
https://llyw.cymru/lles-anifeiliaid

## Deunydd darllen pellach

- Taflen NSALG – Keeping hens and rabbits on allotments
  www.nsalg.org.uk/wp-content/uploads/2012/09/A5_Hens_rabbits_220213_HiRes.pdf
- Mae Cymdeithas Gwenynwyr Cymru a'r Uned Gwenyn Genedlaethol yn darparu amrywiaeth eang o wybodaeth am gadw gwenyn
  www.wbka.com/ a
  www.nationalbeeunit.com/
- Ymddiriedolaeth Lles Ieir Prydain
  www.bhwt.org.uk/
- Deddf Lles Anifeiliaid 2006
  www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/contents
- Lles Ieir Dodwy (cod ymarfer)
  www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-01/laying-hen-welfare-code-of-practice.pdf

# Perchenogion Tir Cyhoeddus a Phreifat – Cyngor ar Weithio gyda Grwpiau Tyfu Cymunedol

*Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* rwymedigaethau newydd i gyrff cyhoeddus gwahanol sicrhau eu bod yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy, ac nid dim ond yn ystyried y presennol, ond cenedlaethau'r dyfodol hefyd. Mae tyfu bwyd mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd yn bodloni'r agenda hon ac yn fwy byth pan fydd yn cael ei wneud gan y gymuned. Mae hyn yn golygu bod y manteision i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n deillio o brosiectau tyfu cymunedol yn cael eu cydnabod a'u datblygu.

Mae sawl math gwahanol o ardd gymunedol, gan gynnwys rhandiroedd/lleiniau tebyg i randiroedd, ardaloedd tyfu cymunedol, gerddi therapiwtig, gerddi ysgol a pherllannau. Mae prosiectau newydd yn datblygu drwy'r amser.

Gall y gwahanol fathau hyn o dyfu ddigwydd ar unrhyw dir, nid dim ond tir y cyngor. Mae amrywiaeth gynyddol o berchenogion tir wedi cynnig eu tir yn llwyddiannus at ddiben garddio cymunedol, gan gynnwys ffermwyr, datblygwyr, y GIG, perchenogion ystad, cymdeithasau tai, prifysgolion, manwerthwyr a chyrff cyhoeddus fel Network Rail.

Mae gan rai perchenogion tir bryderon dealladwy ynghylch trosglwyddo eu tir ar gyfer tyfu bwyd cymunedol ac i'w ddefnyddio at ddibenion cymunedol eraill. Gall fod pryderon ynghylch sut y gellir gwneud hyn mewn ffordd effeithlon a chosteffeithiol. Os caiff ei wneud yn iawn ac mewn ffordd agored, gall fod yn fuddiol i bob parti.



## Tir addas

Efallai nad ydych yn credu y byddai'r tir dros ben sydd ar gael gennych yn addas, ond mae sawl ffordd arloesol o dyfu ar raddfa fach, gan ddefnyddio gweithwyr gwirfoddol. Bydd pob sefyllfa â'i heriau ei hun oherwydd gwahanol drefniadau perchenogaeth a daliadaeth tir a gwahanol nodweddion y safle a'r ardal o'i amgylch, yn ogystal â'r defnydd arfaethedig o'r tir. Fodd bynnag, gellir datrys y rhan fwyaf o broblemau drwy drafodaeth fanwl a sicrhau bod y cytundeb cyfreithiol cywir yn ei le.

Bydd faint o dir sydd ei angen yn amrywio yn ôl y defnydd tyfu arfaethedig. Gall tyfu cymunedol ddigwydd ar unrhyw fath o safle, o lain fach 2m x 2m i 10 erw ar gyfer prosiect amaethyddiaeth â chefnogaeth y gymuned, sy'n tyfu llysiau ar gyfer cynllun bocs sy'n bwydo 40 o deuluoedd.

Os oes gennych gynlluniau hirdymor ar gyfer eich tir, nid yw hynny'n golygu na all y tir gael ei ddefnyddio at ddiben tyfu yn y cyfamser. Mae rhai prosiectau gwych wedi digwydd ar dir datblygu, yn y byrdymor, gan symud ymlaen pan fydd caniatâd cynllunio wedi'i roi ac mae'r datblygiad ar fin dechrau. Felly, yr hyn sy'n bwysig yw bod pawb sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn gwybod o'r cychwyn mai defnydd "yn y cyfamser" ydyw a bod pawb yn cael gwybod yn gyson am hynt y datblygiad. Mantais hyn yw y gall grwpiau cymunedol wneud defnydd da o dir a fyddai'n wag a segur fel arall mewn ffordd sy'n cynnig manteision a chyfleoedd i bobl leol a pherchennog y tir. Mae llawer o enghreifftiau o arferion da ledled y Deyrnas Unedig.

## Rhent

Mae hyn yn dibynnu ar yr hyn rydych am ei gyflawni. Mae rhai perchenogion tir:

- yn gosod eu tir am ddim (er enghraifft tir wedi'i esgeuluso neu nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn ardaloedd trefol)
- yn gosod eu tir am swm bach iawn/am y gost (fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
- yn gosod y tir ar rent yn ôl pris y farchnad (er enghraifft, y rhent arferol am dir ffermio).

## Dod o hyd i dyfwyr a phrosiectau cymunedol eraill

- cysylltwch â'ch grŵp Pontio lleol a all fod yn ffynhonnell dda o bobl sy'n chwilio am dir
- cysylltwch â phrosiectau tyfu cyfagos a allai fod yn awyddus i gael tir ychwanegol
- defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol
- rhowch gynnig ar hysbysebu neu roi erthygl yn y wasg leol
- cysylltwch â'ch cyngor cymuned neu dref
- gosodwch bosteri yn lleol ac, os bydd digon o ddiddordeb, gallech gynnal cyfarfod cyhoeddus anffurfiol ar y safle neu gerllaw
- ffurfiwch rwydwaith tyfu lleol sy'n dod â pherchenogion tir a grwpiau cymunedol at ei gilydd.



Pan fyddwch yn caniatáu i drydydd parti ddefnyddio eich tir, mae'n hanfodol cadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gan y grŵp/unigolion sy'n defnyddio eich tir: dylech fynnu bod y trydydd parti yn trefnu'r yswiriant hwn mewn unrhyw gytundeb rhentu ffurfiol. Dylech hefyd gadarnhau a yw eich yswiriant eich hun yn ddigonol ar gyfer rhwymedigaethau posibl fel mynediad, neu ddifrod i wasanaethau, os caiff y tir ei rentu i drydydd parti.

Gall cymryd mwy o amser i negodi a delio â grŵp cymunedol nag ag unigolyn, p'un a fyddwch yn negodi prydles neu'n gwerthu neu'n trosglwyddo'r tir i'r grŵp. Mae'n bwysig darparu ar gyfer hyn yn yr amserlen. Ceisiwch sicrhau bod un unigolyn yn cael ei enwebu'n gynrychiolydd a bod ganddo'r awdurdod i ddelio â chi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall pa mor aml mae'r grŵp yn cyfarfod a pha mor gyflym y gall wneud penderfyniadau. Yn y tymor hwy, am mai grŵp cymunedol ydyw, mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn cael budd na os byddwch yn delio ag un unigolyn.

Mae'n bosibl y byddwch am ofyn i'r grŵp ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- cyfansoddiad y grŵp
- nodau ac amcanion y prosiect tyfu cymunedol
- gwybodaeth am gyllid neu gynllun busnes os yw'n briodol.

I gael rhagor o wybodaeth am osod eich tir ar rent, mae gan y Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol (CLAS), sy'n rhan o'r wefan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, lawer o ddogfennau i'ch helpu; nodi pa gytundeb cyfreithiol sy'n briodol, llunio tenantiaeth, ymdrin â'r agweddau cyfreithiol ar osod eich tir a threfnu yswiriant. Mae gan CLAS Cymru swyddogion yng Nghymru hefyd a all eich helpu gyda'ch ymholiadau ynglŷn â thir a chynllunio. www.farmgarden.org.uk/cy

## Manteision tyfu bwyd cymunedol

1. Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth fod yn fwy tebygol o ddigwydd ar dir yr ymddengys nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon neu ei fod yn segur. Gallai cael prosiect tyfu cymunedol ar ddarn o dir arwain at **fwy o barch tuag at le**. Nid yn unig y bydd gennych fwy o bobl ar y safle, yn cadw llygad ar bethau, sy'n helpu i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond mae astudiaethau wedi dangos bod safleoedd y gofelir amdanynt yn profi llai o fandaliaeth (i gael rhagor o wybodaeth, gweler "damcaniaeth y ffenestr wedi'i thorri").
2. Gallai galluogi tyfu cymunedol ar eich tir **arwain at fuddsoddiad** na fyddai'n bosibl fel arall, er enghraifft adfer gardd furiog hanesyddol. Gallai grŵp cymunedol ddarparu'r adnoddau a chael gafael ar arian buddsoddi, y byddai'n anodd ei gael fel arall. Fel arfer, ynghlwm wrth fuddsoddiad sylweddol, mae'r gofyniad bod yr ased ar gael am gyfnod hwy, er enghraifft 10 mlynedd neu fwy.



Byddai mynd ati i fapio tir addas yn galluogi grwpiau cymunedol i ystyried beth sydd ar gael cyn cysylltu ag unigolyn penodol.

# Gwybodaeth ac Adnoddau Ychwanegol

## Gwybodaeth i awdurdodau lleol

Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned Llywodraeth Cymru
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/bwyd-a-dyfir-gan-y-gymuned-cynllun-gweithredu.pdf

Growing in the Community
www.local.gov.uk/growing-community-second-edition

Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908

Deddf Rhandiroedd 1922 Deddf Rhandiroedd 1925

Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1926 Deddf Rhandiroedd 1950

Deddf Llywodraeth Leol Cymru 1994 Deddf Llywodraeth Cymru 1998

Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999 Deddf Landlord a Thenant 1927

Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-pryfed-peillio.pdf

Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol
https://llyw.cymru/chwyn-a-rhywogaethau-estron-goresgynnol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents
https://wcva.cymru/cy/deddf-yr-amgylchedd-cymru/

## Adnoddau bioamrywiaeth

Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt
www.wildlifetrusts.org

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
www.biodiversitywales.org.uk/Cartref

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
www.rspb.org.uk/cy/about-the-rspb/at-home-and-abroad/cymru/

Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid
www.arc-trust.org

Cymdeithas Gwenynwyr Cymru
www.wbka.com

Buglife
www.buglife.org.uk

Plantlife
www.plantlife.org.uk/wales

Coed Cadw
www.woodlandtrust.org.uk